
Efan a'r ras fawr
Gan Rhiannon Lloyd Williams a Sioned Medi Evans

Un ras roedd pob un plentyn yn y byd eisiau cystadlu ynddi oedd ras feic modur **Pegwn y Gogledd**.

Dim ond y goreuon o'r goreuon a oedd yn cael cystadlu yn ras feic modur **Pegwn y Gogledd**.



Er mwyn cystadlu roedd angen curo pawb yn y wlad ac, yn lwcus iawn, roedd **Efan Wyn** wedi curo plant bach Cymru i gyd yn ddiweddar mewn ras heriol.

Heddiw, roedd ras feic modur **Pegwn y Gogledd**.



Roedd yr enillydd yn cael cwrdd â **Siôn Corn**, felly roedd pawb yn barod i wneud unrhyw beth er mwyn ennill.

Ond, un peth gwahanol iawn am ras feic modur **Pegwn y Gogledd** oedd bod pawb yn y byd yn cael cystadlu, gan gynnwys:

**corachod,**

**cewri,**

**gwrachod,**

**dynion eira,**

Ac **Efan Wyn**.



Ond, nid **Efan Wyn** oedd yr unig un o Gymru yno.




Roedd ei ddau frawd bach, Dafydd a Llyr, a'i fam a'i dad wedi dod i'w gefnogi.

Wrth i **Efan** edrych ar hyd y llinell gychwyn a gweld pawb roedd e'n rasio yn eu herbyn, dechreuodd **Efan** deimlo'n nerfus iawn.



Roedd **Efan** erioed wedi rasio yn erbyn **corachod**, neu **wrachod**, neu **ddynion eira** nac ychwaith **cewri**!

Ond roedd gan **Efan** feic modur arbennig iawn.

Beic Honda, **glas** a gafodd fel anrheg Nadolig gan **Siôn Corn** dwy flynedd yn ôl.

Yn sydyn, trodd y golau o fod yn **goch** i **wyrdd** ac i ffwrdd â phawb.

Roedd angen cwblhau tri lap er mwyn ennill ond roedd yna sawl rhwystr yn y ffordd.

Y rhwystr cyntaf oedd bownsio yn erbyn sach coch, enfawr **Siôn Corn** er mwyn neidio dros y dibyn i'r ochr arall.

Yr ail rwystr oedd osgoi'r dynion sinsir enfawr a oedd yn dalach na chloc Machynlleth!



Yn olaf, roedd angen llithro ar hyd pwll o iâ heb fwrw i mewn i'r coed Nadolig bob ochr.

Ar hyn o bryd roedd **Efan** yn drydydd yn y ras.

Roedd yna **wrach** a **dyn eira** gyda sgarff streipïog o'i flaen ar ôl dau lap.

Dim ond un lap oedd ar ôl ac roedd **Efan** wir eisiau cwrdd â **Siôn Corn**.

Roedd **Efan** angen dweud wrth **Siôn Corn** ei fod e eisiau beic modur coch a gwyn ganddo eleni!



Un ar ôl y llall bownsiodd y **wrach**, y **dyn eira**, ac **Efan** yn erbyn sach coch, enfawr **Siôn Corn** gan gyrraedd ochr arall y dibyn yn ddiogel.

Ond wrth i **Efan** nesáu at y dynion sinsir enfawr, gwelodd bod y **wrach** wedi gyrru i mewn i goes dde un o'r dynion sinsir.

Dim ond y **dyn eira** a oedd o flaen **Efan** nawr.

A dim ond un rhwystr oedd ar ôl. Y pwll o iâ.

Pwy oedd am groesi'r iâ heb fwrw i mewn i'r coed Nadolig?

Y **dyn eira** neu **Efan Wyn**?

Roedd y ras yn un agos dros ben.

Roedd holl deulu **Efan**, gan gynnwys Dafydd a Llyr, yn bloeddio nerth eu pennau.

**"Cer amdani, Efan!"**




**"Cyflym, Efan!"**

Wrth i'r dyn eira ac **Efan** nesáu at y pwll o iâ sylwodd **Efan** nad oedd y **dyn eira** wedi gwasgu'r brêc mewn pryd, ac i ffwrdd â'r **dyn eira** i mewn i goeden Nadolig gan wneud i'r **seren** gwympo oddi ar y goeden a glanio ar ei ben.



Nawr, roedd **Efan** ar y blaen a doedd neb yn agos iddo.

Rhuthrodd **Efan** ar draws y llinell derfyn a bloeddiodd pawb mewn hapusrwydd.

Roedd **Efan** wedi ennill ras feic modur **Pegwn y Gogledd!**

Wrth i **Efan** dynnu ei helmed daeth **Siôn Corn** ato i'w longyfarch.




Dwedodd **Efan** wrtho ei fod e eisiau beic modur newydd coch a gwyn a rhoddodd **Siôn Corn** winc fach iddo cyn gadael **Efan** i ddathlu gyda Dafydd, Llyr a'u rhieni.

O'r diwrnod hwnnw ymlaen roedd **Efan** yn cael ei adnabod fel rasiwr beic modur gorau'r byd!

Ac, wrth gwrs, fe gafodd beic modur coch a gwyn gan **Siôn Corn** y flwyddyn honno.


cant a mil o freuddwydion